# Ansawdd a Gwelliant Parhaus: Canllaw ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth awdurdodau lleol

**Beth yw'r Amod Ansawdd a Gwelliant Parhaus?** Amod cyllid a chofrestru yw hwn, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddangos bod eu darpariaeth o ansawdd da a'u bod yn ymwneud â gwelliant parhaus.

**Beth yw ansawdd da?** Ystyr addysg o ansawdd da yw addysg sy'n diwallu anghenion rhesymol dysgwyr. Caiff hyn ei ddangos drwy'r canlynol: deilliannau cadarnhaol mewn arolygiadau Estyn; deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr; profiad dysgwyr da; a cheisio gwella'n barhaus.

**Beth yw'r Fframwaith Ansawdd?** Mae'n nodi canllawiau ar sut y gall darparwyr ddangos bod eu darpariaeth o ansawdd da.Mae'n cynnwys conglfeini, sef meini prawf y mae Medr yn credu eu bod yn dangos bod darpariaeth o ansawdd da ac y dylent ysgogi deilliannau da i ddysgwyr. Rhaid i awdurdodau lleol ystyried y Fframwaith hwn.

**Sut y bydd Medr yn asesu cydymffurfiaeth â'r amod Ansawdd a Gwelliant Parhaus?** Bydd Medr yn ystyried deilliannau arolygiadau Estyn ac asesiadau ansawdd allanol eraill ochr yn ochr â dadansoddiadau data a gwybodaeth.

**Sut mae'r amod yn berthnasol i ddosbarthiadau chwech a gynhelir gan awdurdodau lleol?** Bydd y ffordd y bydd awdurdodau lleol yn dangos darpariaeth chweched dosbarth o ansawdd da yn wahanol i rannau eraill o'r sector addysg drydyddol, am eu bod yn gyfrifol am gefnogi safonau a dwyn ysgolion i gyfrif am y safonau hynny. Mae ganddynt hefyd rôl fel trefnwyr cwricwlwm, yn enwedig o ran llywio cwricwla lleol a gwerthuso ansawdd addysgu a dysgu.

Bydd awdurdodau lleol fel arfer yn ystyried dosbarthiadau chwech yn rhan o'r ysgol gyfan, a chânt eu harolygu fel un endid hefyd. Wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hysgolion, dylai awdurdodau lleol ystyried a yw'r deilliannau ar gyfer dosbarthiadau chwech yn wahanol. Bydd hefyd yn syniad da iddynt ystyried yr amod yn gyfunol mewn perthynas â'u holl ysgolion.

Isod, nodwn rai o'r ffyrdd y gallai awdurdodau lleol ddangos bod eu darpariaeth o ansawdd da, o dan gonglfeini'r Fframwaith Ansawdd. Ni fwriedir i hyn gynnwys yr holl arferion, na nodi gofynion. Y nod yw helpu eraill i fyfyrio ar eu harferion.

**Ymgysylltu â dysgwyr – caiff dysgwyr gyfleoedd i fod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau darparwyr, a gall darparwyr ddangos effeithiolrwydd ac effaith hyn**

Gofyniad cyfreithiol ar gyrff llywodraethu ysgolion sydd â dosbarthiadau chwech, yn hytrach nag awdurdodau lleol, yw cydymffurfio â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr. Bydd Medr yn ceisio sicrwydd gan gyrff llywodraethu ysgolion eu bod yn bodloni'r gofynion. Drwy ei waith monitro, bydd Medr yn canfod ble y byddai ysgolion yn cael budd o gymorth neu hyfforddiant ychwanegol neu rannu mwy o arferion da, ac mae'n bosibl y bydd yn gofyn i awdurdodau lleol helpu i hwyluso hyn.

**Llais y dysgwr – ystyrir safbwyntiau dysgwyr ynglŷn ag ansawdd yr addysg drydyddol a roddir iddynt**

Gall awdurdodau lleol helpu ysgolion i wneud hyn drwy weithgareddau megis:

- Cyfarfod â dysgwyr er mwyn cael adborth uniongyrchol ar eu profiad, a bwydo'r adborth hwn yn ôl i'r ysgol ar gyfer ei hunanwerthusiad
- Gofyn i ysgolion am adborth ar safbwyntiau dysgwyr
- Cynghori ysgolion ar arolygon dysgwyr a dulliau eraill o gasglu adborth, a helpu i rannu arferion da
- Ymgysylltu â staff er mwyn deall sut y caiff llais y dysgwr ei ystyried.

**Ymgysylltu â'r corff llywodraethu – mae'r corff llywodraethu yn mynd ati'n weithredol ac yn effeithiol i oruchwylio ansawdd addysg drydyddol y darparwr, a'r ffordd y caiff yr addysg honno ei gwella'n barhaus**

Bydd awdurdodau lleol yn dangos hyn drwy eu strwythurau llywodraethu eu hunain, a'u cymorth i strwythurau llywodraethu ysgolion. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- Ystyried adroddiadau megis y defnydd o gyllid a'i effaith, drwy eu byrddau a/neu bwyllgorau
- Cefnogi ysgolion, gan gynnwys mewn perthynas â materion megis presenoldeb, anghenion dysgu ychwanegol a chyllid
- Sicrhau bod gwybodaeth am ansawdd mewn ysgolion sydd â dosbarthiadau chwech yn destun systemau goruchwylio mewnol
- Rhoi hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion, gan gynnwys hyfforddiant cenedlaethol, er mwyn helpu

llywodraethwyr i ddeall prosesau sicrhau ansawdd, hyfforddiant cyfaill beirniadol, a helpu llywodraethwyr i herio'n effeithiol

- Goruchwylio trefniadau cydweithio
- Sicrhau eu bod yn ystyried deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol
- Mynychu cyfarfodydd cyrff llywodraethu ysgolion ac adrodd ar y ffordd y mae'r cyrff llywodraethu'n ymwneud ag ansawdd, gan gynnwys goruchwylio Cynlluniau Gwella Ysgolion
- Gwerthuso effaith Cynlluniau Gwella Ysgolion

**Hunanwerthuso – mae darparwyr yn hunanwerthuso, yn cynllunio ar gyfer gwelliant ac yn myfyrio'n rheolaidd ac yn drwyadl, ac mae hyn yn sail ar gyfer prosesau asesu ansawdd allanol a gwaith cynllunio ar gyfer gwelliant parhaus**

Ymhlith yr enghreifftiau o hyn mae:

- Hunanwerthusiadau awdurdodau lleol
- Gweithio gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn hunanwerthuso'n effeithiol er mwyn llywio gwaith cynllunio ar gyfer gwelliant parhaus
- Dadansoddi data, er mwyn deall tueddiadau ac ystyried blaenoriaethau

**Allanoldeb – bydd allanoldeb mewn prosesau asesu ansawdd a gwerthuso gwaith cynllunio ar gyfer gwelliant parhaus, a thrwy ddulliau eraill gan gynnwys defnyddio meincnodau a phwyntiau cyfeirio allanol**

Dywed awdurdodau lleol eu bod yn dangos hyn drwy'r canlynol:

- Arolygiadau Estyn o wasanaethau addysg llywodraeth leol
- Arolygiadau Estyn o ysgolion
- Grwpiau Gwella Ysgolion Rhanbarthol
- Y Grŵp Gwella Ysgolion Cenedlaethol
- Adroddiad y Grŵp Gwella Ysgolion Cenedlaethol i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)
- Cydweithio rhwng ysgolion
- Ystyried data, meincnodau, tueddiadau ac ati

**Gwelliant parhaus – caiff arferion da eu rhannu'n fewnol ac yn allanol er mwyn ysgogi arloesedd a rhagoriaeth o ran ansawdd y profiad dysgu ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol a phob rhan o Gymru**

Ymhlith y ffyrdd y gall awdurdodau lleol ddangos eu bod yn ymwneud â gwelliant parhaus mae:

- Ymwneud â'r Grŵp Gwella Ysgolion Cenedlaethol, sy'n bwydo i mewn i CCAC
- Ymwneud â gwaith cynllunio ar gyfer gwelliant parhaus drwy ddulliau mewnol
- Ymwneud â phenaethiaid ysgolion uwchradd a cholegau
- Cefnogi gwaith cynllunio ar gyfer gwella ysgolion, gan gynnwys sicrhau y caiff staff a dysgwyr eu cynnwys mewn cynlluniau gwella ysgolion, bod cynlluniau'n effeithiol, a'u bod yn cael eu rhoi ar waith
- Cydweithio'n rhanbarthol ag awdurdodau lleol eraill
- Rhannu arferion da o fewn yr awdurdod lleol a thu hwnt
- Cefnogi comisiynu ar y cyd rhwng ysgolion, e.e. cymorth cyfrwng Cymraeg a hyfforddiant arweinyddiaeth
- Cefnogi ysgolion wrth iddynt weithio mewn partneriaeth, e.e. ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n cymryd rhan mewn rhwydweithiau cyfrwng Cymraeg, cydweithio rhwng ysgolion lleol

**Dysgu a datblygiad proffesiynol – mae darparwyr a Medr yn helpu aelodau o weithlu'r sector addysg drydyddol i ddysgu a datblygu'n broffesiynol**

Mae awdurdodau lleol wedi rhannu nifer o ffyrdd y maent yn cefnogi dysgu proffesiynol, gan gynnwys:

- Defnyddio cynlluniau gwella ysgolion fel cyfrwng
- Datblygu cynlluniau cymorth wedi'u teilwra ar gyfer pob ysgol
- Dod â phenaethiaid chweched dosbarth ynghyd mewn rhwydweithiau
- Helpu ysgolion i gydweithio â'i gilydd i rannu arferion
- Adnabod unigolion y mae angen datblygiad proffesiynol arnynt, a meysydd lle mae angen newid.

Mae'n debygol y bydd awdurdodau lleol yn ymgysylltu â Dysgu yn y maes hwn yn y dyfodol.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch ag ansawdd@medr.cymru

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research